**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 27 Medi 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams | Y V Jardine |
| A J Jeffery | J W Jones | E T Kirchner |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Helen St John | Pennaeth y Gwasanaethau Integredig |

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfod ar 2 Mawrth 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Derbyniwyd y cwestiwn canlynol gan aelod o'r cyhoedd. Gofynnodd y Cynullydd y cwestiwn i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal ar ei ran:

CWESTIWN:

Hoffwn ofyn beth sy'n cael ei wneud i ddarparu llety byw â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu yn ward yr Uplands? Mae fy mab wedi aros 11 mlynedd - mae'n

gweithio'n galed, yn gwrtais ac yn dawel iawn, gan oresgyn ystod o anableddau e.e. syndrom Down, awtistiaeth, anawsterau cyfathrebu, anawsterau iaith a lleferydd ac mae ganddo feddyginiaeth ar gyfer gorbryder ac iselder. Mae'r biwrocratiaeth rydym wedi dod ar ei thraws yn ei gwneud hi'n amhosib dod o hyd i lety yn ward enfawr Uplands, sef yr ardal y mae wedi byw ynddi ar hyd ei oes a lle mae pawb yn gyfarwydd ag ef ac yn ei hoffi, lle mae'n mynd i feddygfeydd lleol (meddyg teulu, deintydd, optegydd, podiatrydd lleol). Roedd ei fam-gu a'i dad-cu yn cael eu parchu ac yn flaenllaw yn yr ardal, ei rieni - un yn ddarlithydd lleol a'r llall yn athro ysgol gyfun leol, ei frodyr a'i nithod i gyd wedi/yn byw yn yr ardal. Rwyf bellach yn 75 oed a hefyd yn gofalu am fy ngŵr felly bydd y sefyllfa'n dyngedfennol cyn bo hir gan fod fy iechyd fy hun yn dioddef. Oes gobaith i rywbeth gael ei ystyried o ran yr hen *Sancta Maria er enghraifft,* sydd wedi ei brynu gan *Coastal?* Fodd bynnag, fy nghwestiwn i eto yw 'beth sy'n cael ei wneud i ddarparu llety byw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu ar draws ward Uplands?'

YMATEB GAN AELOD Y CABINET:

"Mewn byd delfrydol byddem wrth ein boddau pe bai gan bobl lety yn eu hardal eu hunain, lle mae ganddynt lawer o gysylltiadau. Darperir byw â chymorth ar draws y sir trwy lety â chefnogaeth yn ôl y galw, llety â chefnogaeth ar y safle, llety a rennir â chymorth ar y safle neu heb gymorth ar y safle, a threfniadau byw a rennir. Ar hyn o bryd mae dros 280 o drefniadau byw â chymorth ar draws y sir ac yn Uplands mae 9 uned hunangynhwysol a 4 eiddo. Rydym yn parhau i chwilio am lety addas ar gyfer byw â chymorth yn Uplands. Rydym wedi nodi llety a oedd yn arwain at gael ei gaffael ond yn anffodus, tynnodd y gwerthwr yn ôl. Mae Uplands yn anodd, does dim argaeledd eang o dir ar gael i adeiladu arno nac eiddo addas ond mae'r cyngor a phartneriaid yn parhau i edrych ar opsiynau yn yr ardal hon. Rydym yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel *Coastal* i ddatblygu eiddo presennol ac i adeiladu llety byw â chymorth newydd. Mae manylebau ar gyfer eiddo i'w datblygu a thir yn seiliedig ar anghenion unigolion. Lle y bo'n bosib, bydd mewn ardaloedd o ddewis ond mae blaenoriaeth ar addasrwydd y llety a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r unigolyn hwnnw. Ar hyn o bryd mae 8 uned yn cael eu hadeiladu yn y sir ac mae eraill wedi'u cynllunio wrth aros am gaffaeliad tir. O ran *Sancta Maria*, yn amlwg mae *Coastal* yn annibynnol ar yr awdurdod, dwi'n meddwl bod eu cynlluniau ar gyfer *Sancta Maria* ar gam dylunio cynnar iawn a heb fynd i'r adran gynllunio eto, felly ni allaf wneud unrhyw sylwadau ar beth maen nhw'n bwriadu ei wneud yno."

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y Panel a allai'r person y soniwyd amdano fynd i *Sancta Maria*, a pha bartneriaid y mae'r cyngor yn gweithio gyda nhw. Fe'i hysbyswyd bod *Sancta Maria* yn eiddo i *Coastal.* Nid yw cynlluniau ar gyfer *Sancta Maria* yn hysbys eto. Mae'r cyngor yn gweithio gyda nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan gynnwys *Coastal,* Pobl ac eraill.

- Holodd y Panel os oes gan y cyngor unrhyw fewnbwn i'w portffolios h.y. pan fydd cynlluniau'n cael eu llunio, ydyn nhw'n gofyn a oes angen dyrannu llety penodol? Fe'i hysbyswyd, ydyn, byddai'r adran Tai yn gallu rhoi ateb llawn. O ran Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, edrychir ar adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a'r hyn sydd ei angen yn y farchnad.

## 5 Rôl Panel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion

Trafododd yr Aelodau rôl y Panel. Cododd y Cynullydd nifer o bwyntiau dan yr adran ar Waith Effeithiol.

Cytunodd y Panel i wahodd Tony Beddow i eistedd ar y Panel fel aelod cyfetholedig ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2022/23. *(Nodyn ar ôl y cyfarfod: Derbyniodd Tony Beddow y gwahoddiad hwn.)*

## 6 Cyflwyniad - Trosolwg o'r Gwasanaethau i Oedolion yn Abertawe

Cyflwynodd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal, drosolwg o Wasanaethau i Oedolion yn Abertawe, gan gynnwys heriau a blaenoriaethau.

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y Panel a fyddai angen aildrafod contractau presennol gyda'r sector preifat gan fod costau byw yn gwaethygu ac os oes digon o hyblygrwydd yn y gyllideb ar gyfer hyn, ac i gynyddu cyflogau staff er mwyn eu cadw. Fe'i hysbyswyd bod y cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a gomisiynwyd ar hyn o bryd o ran gosod ffïoedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ynghylch y cyflog byw go iawn a dyhead y cyngor i gefnogi hyn.
- Aeth y cyngor drwy broses ailgomisiynu fawr 4 neu 5 mlynedd yn ôl, holodd y Panel os yw'n mynd i fynd trwy un arall, os bu unrhyw ddadansoddiad o'r contractau hynny i weld a oeddent yn effeithiol cyn cael eu hailgomisiynu eto, ac os oedd unrhyw ddefnyddwyr yn rhan o'r adolygiadau. Cadarnhaodd Swyddogion y cynhelir adolygiadau'r Gwasanaeth ar sail gylchol, ynghyd â'r prosiectau a'r mentrau y mae'n eu hariannu o ran perfformiad ac ansawdd. Mae defnyddwyr yn rhan o'r broses adolygu ac mae cydgynhyrchu yn rhan bwysig iawn o'r Gwasanaeth.
- Holodd y panel pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe'i hysbyswyd bod llawer o waith yn cael ei wneud i gefnogi hyn. Bydd Aelod y Cabinet yn dosbarthu rhestr o'r hyn sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth o ran lles a chefnogi staff.
- Diolchodd y Panel i'r staff am bopeth maen nhw wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf gan dalu teyrnged i Gydlynwyr Ardaloedd Lleol sydd wedi cefnogi pobl yn y cymunedau.
- Dywedodd y Panel fod gwasanaeth gwirfoddol gweithredol yn Abertawe y gellid ei ddefnyddio o bosib i leddfu straen staff sydd â llwyth gwaith ychwanegol yn sgîl darparu ar gyfer y rheini sy'n absennol. O ran ymagweddau yn y gymuned a CALl, cytunodd Aelod y Cabinet eu bod yn wych am roi pobl mewn cysylltiad â gwasanaethau cymunedol lleol sy'n aml yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr.
- Clywodd y Panel fod y Gwasanaeth wedi llwyddo i recriwtio rhagor o weithwyr cymdeithasol ond holodd a oedd hyn ar draul awdurdodau eraill, neu a oedd pobl newydd a allai fod yn gymwys yn dod i mewn i'r diwydiant ar hyn o bryd. Fe'i hysbyswyd bod y ddau beth yn wir a'i fod yn her genedlaethol, a bod angen gwneud rhywbeth ar lefel Llywodraeth Cymru i ddenu pobl i'r proffesiwn ar draws y wlad.

Camau Gweithredu:

- Aelod y Cabinet i ddosbarthu rhestr i'r Panel o'r hyn sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth mewn perthynas â lles a chefnogi staff.

7 **Rhaglen Waith ddrafft 2022-23**

Cytunodd y Panel ar y Rhaglen Waith ar gyfer 2022/23.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm